Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Band Eang Cyflym Iawn

## Yr ateb cyflym iawn i chi

**Band Eang Cyflym Iawn**
llyw.cymru/cyflymu

## Rydym eisiau i bob eiddo yng Nghymru allu cael band eang cyflym, dibynadwy.

Mae mwyafrif helaeth cartrefi a busnesau Cymru yn gallu cael band eang cyflym iawn erbyn hyn, yn bennaf o ganlyniad i raglen Cyflymu Cymru. Ond, mae rhai cartrefi a busnesau yn dal heb fynediad at gysylltiad band eang cyflym iawn.

Er bod llawer o gartrefi a busnesau yn defnyddio cysylltiad band eang ffeibr, nid oes un ateb a wnaiff y tro ym mhob cyd-destun wrth sôn am gyflymderau cyflym iawn. Mae nifer o opsiynau gwahanol ar gael o ran technoleg a chymorth ariannol.

Bydd ein canllaw syml yn eich tywys drwy'r cwestiynau y dylech eu hystyried i'ch helpu i ddeall yr opsiynau a'r cymorth sydd ar gael er **mwyn cael band eang cyflymach nawr**.

### 1) Pa wasanaeth band eang alla i ei gael ar hyn o bryd?

Yn gyntaf, **gwiriwch a oes gennych fynediad at gysylltiad band eang ffeibr yn barod**. Darparodd ein rhaglen Cyflymu Cymru ar y cyd ag Openreach fynediad band eang cyflym iawn i'r rhan fwyaf o gartrefi a busnesau yng Nghymru. Efallai fod modd ichi ei gael yn barod.

Chwiliwch ar-lein: Openreach Fibre Checker

**Os oes gennych fynediad, bydd angen ichi uwchraddio neu osod archeb gyda darparwr. Fydd hyn ddim yn digwydd yn awtomatig.**

**Cofiwch:**

- Gallwch ddewis unrhyw ddarparwr i gyflenwi eich band eang cyhyd â'i fod yn cynnig gwasanaethau band eang ffeibr.
- Os yw ffeibr yn cael ei ddarparu ichi drwy **gysylltiad ffeibr i'r adeilad (FTTP)**, un o'r technolegau mwy newydd a ddefnyddir i ddarparu band eang ffeibr, bydd angen ichi ddefnyddio darparwr sy'n cynnig gwasanaethau yn y ffordd hon.

**Edrychwch ar:** Y cyngor ar archebu band eang cyflym iawn ar **llyw.cymru/cyflymu**

- Mae yna gyflenwyr eraill sydd â rhwydweithiau band eang yng Nghymru ac rydym yn argymell eich bod yn edrych ar yr holl opsiynau sydd ar gael ichi.

**Edrychwch ar:**

- **Gwiriwr Argaeledd Band Eang Ofcom**
- **Yn uniongyrchol gyda darparwyr band eang**
- **Gwefannau cymharu prisiau.**

Os oes gennych fand eang yn barod ond nad yw'n ddigon cyflym, **edrychwch ar gyngor Ofcom ar sut mae cyflymu eich gwasanaeth presennol** cyn ymchwilio i'r opsiynau eraill sydd ar gael.

Chwiliwch ar-lein:
**Ofcom – Cyngor ymarferol ar wella cyflymder eich band eang.**

## 2) Oes yna gynlluniau i fand eang ffeibr gael ei gyflwyno yn f'ardal i?

Os nad yw band eang cyflym iawn ar gael i chi ar y funud, efallai eich bod **wedi'ch cynnwys mewn cynlluniau cyflwyno ar gyfer y dyfodol**.

Mae cwmnïau preifat yn ehangu'u rhwydweithiau, felly rydym yn argymell eich bod yn gwirio'n uniongyrchol gyda darparwyr band eang i weld a ydych efallai yn rhan o'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Lle nad oes gan gwmnïau preifat gynlluniau, rydym am ehangu cwmpas band eang cyflym iawn ymhellach fyth. Un o'n hatebion i hyn yw adeiladu mwy o fand eang ffeibr ar gyfer cartrefi a busnesau gan ddefnyddio arian cyhoeddus. Openreach sy'n gwneud y gwaith hwn ar ein rhan. Bydd hyn yn cynnwys rhai o'r cartrefi a'r busnesau sydd heb fynediad at fand eang dibynadwy, cyflym, ond nid pob un.

**Edrychwch ar-lein i weld a ydych chi yn y cynlluniau cyflwyno hyn.** Os nad ydych chi yn y cynlluniau, mae ffyrdd eraill o gael cysylltiad.

Ewch i:
**llyw.cymru/cyflymu**

## 3) Oes yna gartrefi a busnesau eraill yn agos ata i sydd eisiau cael band eang mwy cyflym?

Gellir darparu atebion i un eiddo neu i gymuned gyfan. Os ydych wedi'ch lleoli yn agos at gartrefi a busnesau eraill y mae angen band eang cyflymach arnynt, efallai y byddai'n werth chweil ichi ddod at eich gilydd a **chanfod ateb cymunedol**. Mae nifer o ffyrdd gwahanol y gall cymunedau fynd ati i wella'u band eang.

Mae gan **Lywodraeth y DU ganllawiau cynhwysfawr ar sefydlu cynllun band eang dan arweiniad cymunedau** a allai eich helpu i benderfynu ar y ffordd iawn i chi.

Chwiliwch ar-lein:
**Gov.uk – Cynlluniau band eang dan arweiniad y gymuned**

## 4) Pa dechnolegau alla i eu defnyddio i allu cael band eang mwy cyflym?

Mae'r rhan fwyaf o gartrefi a busnesau yn defnyddio cysylltiad ffeibr, ond **mae opsiynau eraill ar gael i hybu cyflymder band eang**. Mae technolegau newydd yn ymddangos drwy'r amser, felly mae'n well ymchwilio i'r holl atebion diweddaraf sydd ar gael i chi. Mae'r technolegau presennol yn esblygu'n gyflym, sy'n golygu y gallai atebion yr ydych efallai wedi'u diystyru yn y gorffennol fod yn opsiwn i chi erbyn hyn.


Dyma rai o'r technolegau hynny:

## Cysylltiad di-wifr sefydlog



Defnyddir antena i godi signal band eang o fast i ddarparu band eang i'ch eiddo, gan ddileu'r angen am geblau neu linellau ffôn.

## Ateb symudol/ band eang 4G




Gellir gosod llwybrydd band eang symudol i gysylltu'ch eiddo â band eang drwy 4G. Nid defnyddio ffôn symudol yn unig a wneir a gellir defnyddio antena allanol mewn ardaloedd lle nad yw signal 4G yn gryf efallai dan do. Erbyn hyn, mae pecynnau data digyfyngiad ar gael hefyd gan nifer o ddarparwyr.

## Cysylltiad lloeren



Mae lloeren yn trosglwyddo data i soser sydd ar eich eiddo chi, i ddod â band eang ichi. Mae hyn yn darparu cyflymder lawrlwytho cyflym iawn a dylai fod ar gael ym mhobman.

## Ateb ffeibr cymunedol



Mae hyn yn galluogi cartrefi a busnesau i ariannu ateb band eang cyflym iawn wedi'i seilio ar ffeibr fel rhan o brosiect grŵp.

Dylai busnesau ystyried yn ofalus pa mor hanfodol yw eu cysylltiad band eang iddyn nhw. Mae llawer o ddarparwyr band eang hefyd yn cynnig pecynnau band eang penodol i fusnesau a chysylltiadau penodedig ym mhen ucha'r farchnad, megis llinellau ar brydles. Gall y rhain gynnwys nodweddion ychwanegol megis gwell gwarantau gwasanaeth, gwell cymorth i gwsmeriaid a mwy o ddiogelwch.

## 5) Oes arian ar gael i'm helpu?

Mae cynlluniau ar gael i helpu i ariannu costau gosod cysylltiadau band eang newydd.

Mae cynllun **Allwedd Band Eang Cymru Llywodraeth Cymru** yn darparu grantiau i ariannu costau gosod cysylltiadau band eang newydd. Mae ein cynllun ar gael i gartrefi unigol, busnesau neu gymunedau a gellir defnyddio unrhyw dechnoleg. Rhaid i gysylltiadau band eang sy'n cael eu hariannu drwy'r cynllun hwn fod yn ddwbl y cyflymder lawrlwytho presennol e.e. rhaid i gysylltiad presennol o 10Mbps wella i o leiaf 20Mbps.

**Gorau ar gyfer:**
Eiddo unigol y mae angen iddynt gyflymu'u band eang.

**Ewch i:**
llyw.cymru/cyflymu

Mae **Cynllun Talebau Band Eang Gigabid Llywodraeth y DU** yn helpu i ariannu atebion band eang cyflymach fyth sy'n gallu delio â gigabid. Mae un gigabid yr un fath â 1,000 megabid felly rhaid i gysylltiadau drwy'r cynllun hwn allu darparu'r cyflymderau hyn. Mae'r cynllun ar gael i fusnesau a chymunedau sy'n cynnwys o leiaf un busnes. Bydd y rhai sy'n gwneud cais am y cynllun yng Nghymru, pan fyddant yn rhan o brosiect grŵp, yn gymwys yn awtomatig i gael **arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru** tuag at y costau hyn.

**Gorau ar gyfer:**
Busnesau a'r cymunedau o'u cwmpas.

## 6) Ble gellir cael rhagor o wybodaeth?

### Ewch i

**llyw.cymru/cyflymu**
Mae ein gwefan yn cynnwys arweiniad ar yr opsiynau band eang sydd ar gael i chi a gwybodaeth ar wneud cais am arian ar gyfer cysylltiadau band eang newydd.

**boostyourbroadband.com**
Mae gwefan Y Gorau O'ch Gwasanaeth Ofcom a Which yn cynnwys gwiriwr argaeledd band eang, cyngor ar wella cyflymder eich band eang a dolenni i safleoedd cymharu prisiau achrededig.

**ofcom.org.uk**
Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y gwasanaethau cyfathrebu rydym yn eu defnyddio ac yn dibynnu arnynt bob dydd, i wneud yn siŵr fod pobl yn cael y gorau o'u gwasanaethau band eang, ffôn cartref a ffôn symudol.

**https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy**
Cyngor a chymorth i'ch helpu i wneud y gorau o dechnoleg ar-lein yn eich busnes.

### Chwiliwch ar-lein

**Openreach Fibre Checker**
Edrychwch i weld a oes ffeibr ar gael i chi yn dilyn ein rhaglen Cyflymu Cymru.

**Gov.uk**
**Cynlluniau band eang dan arweiniad y gymuned**
Canllawiau ar sefydlu cynllun band eang dan arweiniad y gymuned, yn cynnwys mwy o wybodaeth am y gwahanol dechnolegau y gellir eu defnyddio i allu cael cyflymder uwch.

# Canfod eich ateb cyflym iawn

## Cam 1
### Gwiriwch pa wasanaethau band eang sydd ar gael i chi ar hyn o bryd

Defnyddiwch wirwyr i weld a oes band eang cyflym iawn ar gael.

**Ar gael?**
Dilynwch ein cyngor archebu a defnyddiwch safleoedd cymharu prisiau.

**Wedi uwchraddio'n barod?**
Dilynwch gyngor Ofcom i gyflymu'r gwasanaeth sydd gennych.

**Ddim ar gael?**
Ewch i gam 2

## Cam 2
### Edrychwch i weld a ydych yn rhan o unrhyw gynlluniau i gyflwyno ffeibr yn y dyfodol

Ewch i'n gwefan i weld a ydych yn rhan o'n cynlluniau cyflwyno.

Holwch ddarparwyr yn uniongyrchol i ganfod cynlluniau cwmnïau preifat.

**Ddim yn y cynllun?**
Ewch i gam 3

## Cam 3
### Ewch ati i ganfod anghenion cartrefi a busnesau eraill yn eich cymuned

Siaradwch â chartrefi a busnesau eraill yn eich cymuned i ddeall eu hanghenion band eang nhw.

Os yw prosiect grŵp yn iawn i chi, darllenwch ganllawiau Llywodraeth y DU ar sefydlu cynllun cymunedol.

## Cam 4
### Ymchwiliwch i ba dechnolegau sydd ar gael i chi i allu manteisio ar fand eang cyflymach

Ymchwiliwch i'r technolegau sydd ar gael.

Cysylltu â darparwyr gwasanaethau lleol i weld beth mae modd ei gynnig.

## Cam 5
### Ymchwiliwch i'r opsiynau ariannu

Ewch i'n gwefan i gael cyngor am yr arian sydd ar gael.

Yn olaf, dewiswch yr ateb band eang mwy addas i chi drwy ddarparwr o'ch dewis chi. Gwnewch gais am yr arian y mae ei angen arnoch a mwynhewch gyflymderau band eang mwy cyflym.

**llyw.cymru/cyflymu**


OGL © Hawlfraint y Goron 2019
WG37752 ISBN digidol 978-1-83876-279-7 ISBN argraffu 978-1-83876-277-3